



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Gweithredu rheoliadau dirprwyedig yr UE ar fwyd ar gyfer grwpiau penodol

**Ymgynghoriad ar offeryn statudol drafft i weithredu dau o reoliadau
dirprwyedig yr UE ar fwydydd at ddibenion meddygol arbennig a fformiwla
babanod a fformiwla ddilynol yng Nghymru.**

Dyddiad cyhoeddi: 8 Tachwedd 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 6 Rhagfyr 2019

Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am sylwadau ar gynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth ddomestig, ar ffurf diwygio Offeryn Statudol fel bod modd gorfodi elfennau o Reoliad Dirprwyedig [2016/128](#) yr UE ar fwyd at ddibenion meddygol arbennig a Rheoliad Dirprwyedig 2016/127 yr UE ar fformiwla babanod a fformiwla ddilynol, yng Nghymru. Rydym yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar addaswydd y dull gorfodi arfaethedig, sy'n seiliedig ar Hysbysiadau Gwella.

Sut i ymateb

Anfonwch sylwadau erbyn 6 Rhagfyr 2019:

Trwy'r ffurflen ar-lein

Trwy e-bost neu'r post gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Byw'n Iach ac Egnïol

Is-adran Iechyd y Cyhoedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: **Lifestyles@gov.wales**

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data; gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Crynodeb	5
Cefndir	6
Gorfodi	8
Costau	10
Siart llif ar y weithdrefn orfodi arfaethedig	11
Cwestiynau'r ymgynghoriad	12

CRYNODEB

1. Ystyr Bwydydd at Ddibenion Meddygol Arbennig (FSMP) yw bwydydd arbenigol a fwriedir ar gyfer bwydo pobl, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, pan na all bwydydd arferol ddiwallu eu hanghenion maethol.
1. Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn [2016/128](#) a fabwysiadwyd ym mis Medi 2015, yn darparu rheolau newydd yr UE ar gyfer cyfansoddiad a labelu Bwydydd at Ddibenion Meddygol. Daeth rhan gynta'r Rheoliad hwn, sy'n ymwneud â gofynion penodol o ran cyfansoddiad a gwybodaeth ar gyfer bwydydd at ddibenion meddygol i oedolion yn unig (h.y. dim babanod) i rym ar 22 Chwefror 2019, ac felly mae eisoes yn berthnasol yng Nghymru. Bydd yr ail ran sy'n ymwneud â Bwydydd at Ddibenion Meddygol i fabanod, yn dod i rym ar 22 Chwefror 2020.
2. Cafodd Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) [2016/127](#) (fel y'i diwygiwyd gan Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) [2019/828](#) 14 Mawrth 2019), sy'n cyflwyno rheolau newydd yr UE ar gyfer cyfansoddiad, labelu a hysbysebu fformiwla babanod a fformiwla ddilynol ei fabwysiadu ym mis Medi 2015. Bydd y rheolau newydd yn weithredol o 22 Chwefror 2020 ymlaen, a fydd yn rhoi cyfnod pontio o 4 blynedd i'r diwydiant gydymffurfio. Yn achos fformiwla babanod a fformiwla ddilynol a wnaed o brotein wedi'i hydroleiddio, bydd y diwydiant yn cael cyfnod pontio ychwanegol sy'n golygu bod ganddynt tan 22 Chwefror 2021 i gydymffurfio.
3. Mae'r ddau Reoliad Dirprwyedig hyn yn ategu fframwaith Rheoliad (UE) Rhif 609/2013 ar Fwyd ar gyfer Grwpiau Penodol.
4. Mae Erthygl 15 ac Atodiad Rheoliad Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol yn cynnwys rhestr o'r sylweddau y gellir eu hychwanegu at fwydydd at ddibenion meddygol arbennig a fformiwla babanod a fformiwla ddilynol. Bydd y ddarpariaeth hon ar waith o ddyddiad cyflwyno'r Rheoliadau Dirprwyedig, h.y. o 22 Chwefror 2020 neu 22 Chwefror 2021.
5. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth ddomestig, ar ffurf offeryn statudol, fel bod darpariaethau'r ddau Reoliad Dirprwyedig ac Erthygl 15 y Rheoliad Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol yn berthnasol ac yn orfodadwy yng Nghymru.
6. Hoffem gael barn rhanddeiliaid ar ein bwriad i ehangu'r drefn orfodi gyfredol i gynnwys y darpariaethau newydd hyn, h.y. parhau i ddefnyddio'r Hysbysiadau Gwella fel y cam gorfodi ffurfiol cyntaf mewn achos o ddiffyg cydymffurfio â'r Rheoliadau.
7. Bydd Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gwneud Rheoliadau tebyg er mwyn copïo darpariaethau'r UE mewn deddfwriaeth ddomestig a chynnwys cosbau am achosion o ddiffyg cydymffurfio. Bydd ymgynghoriadau cyfochrog yn cael eu cynnal ledled y DU ar y cynigion hyn.
8. Mae'r polisi'n cael ei ystyried yn un cost isel ac annadleuol gan fod y DU wedi cytuno i'r ddarpariaeth fel Aelod Wladwriaeth yr UE yn 2015, ac mae busnesau

wedi gweithio tuag at hyn ers sawl blwyddyn er mwyn bodloni amserlenni 22 Chwefror 2020 a 22 Chwefror 2021. Mae llawer o'r cynhyrchion a gafodd eu hailfformiwleiddio er mwyn cydymffurfio â'r rheolau diwygiedig eisoes ar gael ar y farchnad.

CEFNDIR

Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol

9. Mae'r Rheoliad Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (UE) Rhif 609/2013) yn cyflwyno gofynion a gwybodaeth gyfansoddiadol cyffredinol ar gyfer pedwar categori o fwyd, gan gynnwys bwydydd at ddibenion meddygol arbennig, fformiwla babanod a fformiwla ddilynol, bwydydd babis a bwydydd ar gyfer rheoli pwysau. Mae'n cael ei orfodi yng Nghymru trwy Reoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016 ("Rheoliadau 2016"). Mae deddfwriaeth debyg ar waith yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Bwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig

10. Mae Rheoliad Dirprwyedig (UE) 2016/128 ar Fwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig yn ategu'r Rheoliad Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol gyda gofynion penodol o ran gwybodaeth a chyfansoddiad ar gyfer Bwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig yn ystyried darpariaethau deddfwriaeth flaenorol wedi'i chysoni (Cyfarwyddeb 1999/21/EC).
11. Cafodd ei fabwysiadu ar 25 Medi 2015, mae'r ddarpariaeth ar gyfer Bwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig yn hytrach na Bwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig ar gyfer babanod mewn grym ers 22 Chwefror 2019. Caiff y rhain eu gorfodi gan Reoliadau 2016 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Bwydydd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Diwygio) (Cymru) 2019.
12. Felly mae Rheoliad Dirprwyedig Bwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig 2016/128 wedi'i gyflwyno ac mewn grym yng Nghymru ers 22 Chwefror 2019, heblaw mewn perthynas â Bwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig a ddatblygwyd er mwyn bodloni gofynion maeth babanod a ddaw i rym ar **22 Chwefror 2020**.
13. Bydd yr Offeryn Statudol yn gweithredu ac yn darparu ar gyfer gorfodi'r rheolau ar Fwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig ar gyfer babanod a dirymu'r Rheoliadau a oedd yn gweithredu'r Gyfarwyddeb flaenorol h.y. Rheoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000.

Fformiwla Babanod a Fformiwla Ddilynol (IFFOF)

14. Mae Rheoliad Dirprwyedig (UE) 2016/1257 ar Fformiwla Babanod a Fformiwla Ddilynol yn ategu'r Rheoliad Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol. Cafodd ei fabwysiadu ar 25 Medi 2015 er mwyn diweddarau'r gofynion penodol o ran gwybodaeth a chyfansoddiad ar gyfer Fformiwla Babanod a Fformiwla Ddilynol,

gan ystyried darpariaethau'r ddeddfwriaeth gynharach a gysonwyd (Cyfarwyddeb 2006/141/EC) a'r dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf.

15. Bydd y Rheoliad Dirprwyedig (UE) 2016/127 ar Fformiwla Babanod a Fformiwla Ddilynol yn cael ei weithredu ar **22 Chwefror 2020**, ac eithrio fformiwlâu a wnaed o brotein wedi'i hydroleiddio a fydd yn weithredol o **22 Chwefror 2021**. Rydym yn ymgynghori ar orfodi darpariaethau 2020 a 2021.
16. Bydd yr Offeryn Statudol yn gweithredu ac yn darparu ar gyfer gorfodi'r rheolau newydd ar Fformiwla Babanod a Fformiwla Ddilynol ac yn dirymu'r Rheoliadau oedd yn gweithredu'r Gyfarwyddeb flaenorol h.y. Rheoliadau Fformiwla Babanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2007 o 22 Chwefror 2020 ar gyfer y rhan fwyaf o fformiwlâu. Fodd bynnag, bydd Rheoliadau 2007 yn dal i fod mewn grym yn achos Fformiwla Babanod a Fformiwla Ddilynol a wnaed o brotein wedi'i hydroleiddio tan 22 Chwefror 2021.

Rhestr yr Undeb o sylweddau y gellir eu hychwanegu at Fwyd ar gyfer Grwpiau Penodol

17. Mae Erthygl 15 a'r Atodiad i Reoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol 609/2013 yn darparu rhestr yr Undeb o'r sylweddau y gellir eu hychwanegu at Fwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig i fabanod ac i Fformiwla Babanod a Fformiwla Ddilynol. Bydd y ddarpariaeth a'r Atodiad yn dod i rym ar ddyddiad cymhwysu'r Rheoliadau Dirprwyedig. Felly, bydd yr Offeryn Statudol hefyd yn gweithredu ac yn darparu ar gyfer gorfodi'r ddarpariaeth hon fel y mae'n berthnasol i'r grwpiau hyn.

Ymadael â'r UE

18. Os bydd y DU yn parhau i ddilyn rheolau'r UE ar 22 Chwefror (ar ôl ymestyn Erthygl 50 neu yn ystod cyfnod pontio ar ôl cadarnhau Cytundeb Gadael), bydd yn gyfreithiol-ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau gorfodi ar gyfer Bwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig i fabanod a Fformiwla Babanod a Fformiwla Ddilynol, ac eithrio fformiwlâu a wnaed o brotein wedi'i hydroleiddio.
19. Os bydd y DU wedi gadael yr UE erbyn 22 Chwefror 2020, byddwn yn copio'r darpariaethau i ddeddfwriaeth ddomestig yn unol â gweddill y DU ac yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, er na fyddai rhwymedigaeth gyfreithiol i weithredu darpariaethau'r Rheoliadau Dirprwyedig. Byddai peidio â gwneud hynny yn golygu fod Rheoliadau yr UE ar Fwyd ar gyfer Grwpiau Penodol dim ond yn cael eu gweithredu'n rhannol yng Nghymru ac y bydd y ddeddfwriaeth yn hen ffasiwn a ddim yn adlewyrchu'r dystiolaeth bresennol. Ar ben hynny, cytunodd y DU ar y darpariaethau hyn yn 2015 (fel Aelod Wladwriaeth) ac mae llawer o fusnesau eisoes yn gweithio tuag at y gofynion hyn.
20. Bydd y Rheoliadau arfaethedig yn sicrhau na fydd fawr o ymyrraeth i reoliadau maeth wrth i'r DU adael yr UE, a bod deddfwriaeth Gymreig yn y maes hwn yn adleisio'r dystiolaeth gyfredol.

Crynodeb

21. Bydd yr Offeryn Statudol hwn yn:

- gweithredu a darparu ar gyfer gorfodi rheolau Rheoliad Dirprwyedig 2016/128 ar Fwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig ar gyfer babanod (neu os bydd y DU wedi gadael yr UE erbyn 22 Chwefror 2020, copïo a darparu ar gyfer gorfodi'r rheolau hyn)
- gweithredu a darparu ar gyfer gorfodi rheolau Rheoliad Dirprwyedig 2016/127 ar reolau Fformiwla Babanod a Fformiwla Ddilynol (neu os bydd y DU wedi gadael yr UE erbyn 22 Chwefror 2020, copïo a darparu ar gyfer gorfodi'r rheolau hyn)
- gweithredu a darparu ar gyfer gorfodi Erthygl 15 a'r Atodiad i Reoliad Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol 609/2013 mewn perthynas â rhestr yr Undeb o'r sylweddau y gellir eu hychwanegu at Fwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig ar gyfer babanod a Fformiwla Babanod a Fformiwla Ddilynol (neu os bydd y DU wedi gadael yr UE erbyn 22 Chwefror 2020, copïo a darparu ar gyfer gorfodi'r rheolau hyn)
- dirymu Rheoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000 o 22 Chwefror 2020
- dirymu Rheoliadau Fformiwla Babanod a Fformiwla Ddibynnol (Cymru) 2007 o 22 Chwefror 2020 gan ei fod yn berthnasol i fformiwla babanod a fformiwla ddilynol ac eithrio fformiwla'u wedi'u gwneud o brotein wedi'i hydroleiddio a fydd yn dirymu Rheoliadau 2007 o 22 Chwefror 2021.

22. Bydd y cyfnod pontio ar gyfer cwblhau'r gydymffurfiaeth â'r gofynion newydd o ran cyfansoddiad a labelu yn dod i ben ar 22 Chwefror 2020 a 22 Chwefror 2021 yn achos fformiwla babanod a fformiwla ddilynol wedi'u gwneud o brotein wedi'i hydroleiddio. O'r dyddiadau hynny, rhaid i bob Bwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig a Fformiwla Babanod a Fformiwla Ddilynol sydd ar y farchnad yng Nghymru gydymffurfio â'r rheolau newydd.

Gorfodi

23. Rydym yn ymgynghori ar gynigion i ehangu'r drefn orfodi gyfredol sy'n berthnasol i ddeddfwriaeth Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (609/2013 - gweler Ffigur 1) i gynnwys darpariaethau ar Fwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig ar gyfer babanod, Fformiwla Babanod a Fformiwla Ddilynol ac ar gyfer Erthygl 15 a'r Atodiad i Reoliad Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol 609/2013. O'r blaen, os oedd gweithredwr busnes bwyd yn cael ei ganfod yn euog o drosedd dan Reoliadau Bwyd Meddygol (Cymru) 2000 neu Reoliadau Fformiwla Babanod neu Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2007, yna byddai'r gweithredwr hwnnw'n agored i gosb droseddol. Cafodd y Rheoliadau hyn eu diwygio gan Reoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) 2016 ("Rheoliadau 2016") er mwyn caniatáu'r opsiwn o ddefnyddio Hysbysiadau Gwella fel cam cyntaf amgen. Rydym yn cynnig mai'r cam ffurfiol cyntaf ar gyfer gweithredu'r darpariaethau newydd fyddai cyflwyno Hysbysiad Gwella yn hytrach na chosb droseddol. Mae hyn yn cyd-fynd â gorfodi darpariaethau Bwyd at

Ddibenion Meddygol Arbennig sydd ar waith ers 22 Chwefror 2019. Mae'r estyniad arfaethedig i'r defnydd o Hysbysiadau Gwella wedi'u hategu gan gosb droseddol am fethu â chydymffurfio â Hysbysiad Gwella i bob pwrpas yn dad-droseddoli troseddau rheoleiddio mewn achosion priodol. Fodd bynnag, mae modd defnyddio cosbau troseddol o hyd ar gyfer troseddau difrifol sy'n torri deddfwriaethau perthnasol eraill (e.e. os oedd y bwyd yn niweidiol i iechyd, yn gyferbyniol i adran 7 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990).

24. Mae Hysbysiadau Gwella eisoes yn cael eu defnyddio ar gyfer Rheoliadau 2016 a meysydd eraill (e.e. Rheoliadau Gwybodaeth Bwyd 2014), felly mae'r diwydiant a Swyddogion Gorfodi eisoes yn eu deall, ac maent i'w gweld yn gweithio'n dda. Mae'n ddull mwy hyblyg sy'n rhoi mwy o amser a chymorth ychwanegol i'r diwydiant ddatrys y broblem a nodwyd yn yr Hysbysiad Gwella, ac yn eu galluogi i gydymffurfio cyn i'r broblem uwchgyfeirio'n drosedd.
25. Gall achos o dorri'r Rheoliadau Bwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig neu Fformiwla Babanod a Fformiwla Ddilynol fod yn ymwneud â throedd yn naill ai'r (i) gofynion cyfansoddiadol neu'r (ii) gofynion gwybodaeth. Mae'r dull gorfodi yn seiliedig ar risg ac felly byddai'n edrych yn debyg i'r un ar gyfer Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol a amlinellwyd yn Ffigur 1. Rhagwelir y bydd darpariaethau gorfodi anffurfiol yn cael eu defnyddio yn y lle cyntaf er mwyn sicrhau bod cynhyrchion yn cydymffurfio. Os oes gan swyddog awdurdodedig reswm i gredu na fydd y dull anffurfiol yn arwain at ganlyniad llwyddiannus, yna dylid ystyried dull mwy ffurfiol a gellir cyflwyno Hysbysiad Gwella. Fodd bynnag, os oes perygl uniongyrchol i iechyd y cyhoedd (e.e. gofynion o ran cyfansoddiad) dylai'r swyddog awdurdodedig weithio gyda'r busnes i sicrhau bod y bwyd dan sylw'n cael ei dynnu o'r farchnad ar unwaith dan bwerau Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Unwaith mae'r risg i ddefnyddwyr bregus wedi'i leihau, gellir defnyddio darpariaeth gorfodi anffurfiol wedyn i sicrhau bod y bwyd yn cydymffurfio â'r gyfraith.
26. Mae dilyn yr egwyddorion seiliedig ar risg yn golygu y bydd y rhan fwyaf o achosion o dorri amodau yn arwain at gam gorfodi anffurfiol a chyflwyno Hysbysiad Gwella wedyn. Gall methu â chydymffurfio â Hysbysiad Gwella esgor ar gosbau troseddol.

Apeliadau


27. Mae modd apelio yn erbyn Hysbysiad Gwella gerbron Llys yr Ynadon yng Nghymru, os nad yw'r busnes yn cytuno ag amodau'r Hysbysiad. Bydd y broses apelio yn unol â'r Hysbysiadau Gwella a ddefnyddiwyd ar gyfer Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016.
28. Prif amcan unrhyw gam gorfodi yw sicrhau cydymffurfiaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol a dylai'r cam gorfodi fod yn unol â'r "hierarchaeth orfodi" a nodir ym mhenodau Gorfodi codau ymarfer cyfraith bwyd <https://www.food.gov.uk/cy/about-us/codau-ymarfer-cyfraith-bwyd-a-bwyd-anifeiliaid>. Dylid defnyddio Hysbysiadau Gwella Bwydydd at Ddibenion Meddygol Arbennig yn unol â pholisi gorfodi'r Awdurdod Lleol a rhaid eu hystyried fel rhan o'r broses o uwchgyfeirio cam gorfodi yn unol â'r hierarchaeth orfodi.

Costau

Nid oes fawr o gost yn gysylltiedig â'r Offeryn Statudol i Gymru. Amcangyfrifir y byddai'n cymryd tuag awr i awdurdodau lleol Cymru ddarllen a deall yr Offeryn Statudol newydd ar gost o £27 yr awr. Mae hyn yn gyfystyr â £594 ar gyfer Cymru gyfan.

Amcangyfrifir y byddai'n cymryd dwy awr ar gost o £53.40 i fusnesau ymgyswngtuo â'r gofynion newydd. Fodd bynnag, ni wyddom am unrhyw fusnesau Bwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig sydd ar waith yng Nghymru. Felly, rhagwelir na fydd unrhyw gost i fyd diwydiant yng Nghymru.

Ffigur 1. Siart llif rheoliadau gorfodi bwyd ar gyfer grwpiau penodol (FSG), yr ydym yn cynnig ehangu i gynnwys Rheoliadau Bwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig a Fformiwla Babanod a Fformiwla Ddilynol.



Cwestiynau'r Ymgynghoriad

- 1. Ydych chi'n cytuno mai'r cam ffurfiol cyntaf am dorri darpariaethau Rheoliad Dirprwyedig (UE) 2016/128 ar fwyd at ddibenion meddygol arbennig ar gyfer babanod fyddai Hysbysiad Gwella sy'n cyd-fynd â'r darpariaethau gorfodi ar gyfer Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016 (gorfodi Rheoliad UE 609/2013) a Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Diwygio) (Cymru) 2019 (sy'n cynnwys gorfodi'r darpariaethau ar gyfer Bwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig heblaw am Fwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig ar gyfer babanod)?**

- 2. Ydych chi'n cytuno mai'r cam ffurfiol cyntaf am dorri darpariaethau Rheoliad Dirprwyedig (UE) 2016/127 ar fformiwla babanod a fformiwla ddilynol fyddai Hysbysiad Gwella sy'n cyd-fynd â'r darpariaethau gorfodi ar gyfer Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016 a Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Diwygio) (Cymru) 2019?**

[Noder na fyddai'r drefn orfodi arfaethedig yn atal erlyniad troseddol fel y cam cyntaf os bydd yr achos o dorri amodau yn gyfystyr â throsedd dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (e.e. os oedd y bwyd yn niweidiol i iechyd yn groes i adran 7). Dan yr amgylchiadau hyn, ni fyddai'r swyddog awdurdodedig yn erlyn rhywun am dorri rheoliadau Bwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig neu Fformiwla Babanod neu Fformiwla Ddilynol, ond am dorri Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Hefyd, byddai methu â chydymffurfio â hysbysiad gwella a gyflwynwyd dan y Rheoliadau yn ennyn cosbau troseddol.]

- 3. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y bydd y rheoliadau hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Beth fyddai'r effeithiau yn eich tyb chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif a lliniaru'r effeithiau negyddol?

- 4. Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r rheoliadau arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

- 5. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:**

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma.

Ymgynghoriad gweithredu rheoliadau dirprwyedig yr EU ar fwyd ar gyfer grwpiau penodol

**Ffurflen Ymateb
i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Anfonwch eich ymatebion erbyn 6 Rhagfyr 2019 i:

Y Gangen Byw'n Iach ac Egnïol

Is-adran Iechyd y Cyhoedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu cwblhewch yn electronig i: fforddofyw@llyw.cymru

- 1. Ydych chi'n cytuno mai'r cam ffurfiol cyntaf am dorri darpariaethau Rheoliad Dirprwyedig (UE) 2016/128 ar fwyd at ddibenion meddygol arbennig ar gyfer babanod fyddai Hysbysiad Gwella sy'n cyd-fynd â'r darpariaethau gorfodi ar gyfer Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016 (gorfodi Rheoliad UE 609/2013) a Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Diwygio) (Cymru) 2019 (sy'n cynnwys gorfodi'r darpariaethau ar gyfer Bwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig heblaw am Fwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig ar gyfer babanod)?**

2. Ydych chi'n cytuno mai'r cam ffurfiol cyntaf am dorri darpariaethau Rheoliad Dirprwyedig (UE) 2016/127 ar fformiwla babanod a fformiwla ddilynol fyddai Hysbysiad Gwella sy'n cyd-fynd â'r darpariaethau gorfodi ar gyfer Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016 a Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Diwygio) (Cymru) 2019?

[Noder na fyddai'r drefn orfodi arfaethedig yn atal erlyniad troseddol fel y cam cyntaf os bydd yr achos o dorri amodau yn gyfystyr â throedd dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (e.e. os oedd y bwyd yn niweidiol i iechyd yn groes i adran 7). Dan yr amgylchiadau hyn, ni fyddai'r swyddog awdurdodedig yn erlyn rhywun am dorri rheoliadau Bwyd at Ddibenion Meddygol Arbennig neu Fformiwla Babanod neu Fformiwla Ddilynol, ond am dorri Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Hefyd, byddai methu â chydymffurfio â hysbysiad gwella a gyflwynwyd dan y Rheoliadau yn ennyn cosbau troseddol.]

3. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y bydd y rheoliadau hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich tyb chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif a lliniaru'r effeithiau negyddol?

4. Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r rheoliadau arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

5. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma.